
# Help gyda Chostau Gofal Plant

## Arweiniad i'r cymorth sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant





Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2024

# Croeso.....

Yma ym Meithrinfeydd Dydd a Meithrinfeydd Cyn Ysgol Happy Days, rydyn ni'n credu bod pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau posib mewn bywyd. Rydyn ni'n ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth i alluogi rhieni i weithio a byw eu bywydau bob dydd, gan wybod bod eu plant yn cael y gofal a'r sylw gorau posib.

Rydyn ni'n deall bod costau gofal plant yn gyfran sylweddol o'ch gwariant ac rydyn ni am sicrhau bod ein holl deuluoedd yn cael y cymorth y mae ganddyn nhw'r hawl iddo.

Mae nifer o raglenni'r llywodraeth yn cefnogi rhieni gyda chostau gofal plant. Er ein bod yn ceisio egluro'r rhain yn fwy manwl yn yr arweiniad hwn, mae amgylchiadau pawb yn wahanol, felly byddem yn eich annog i fynd i: www.llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant, i gael gwybod pa gymorth sydd ar gael i chi.

Wedi dweud hynny, bydd yr arweiniad hwn yn rhoi trosolwg i chi o'r help sydd ar gael a sut mae hynny'n effeithio ar y ffioedd rydych chi'n eu talu yn eich Meithrinfa Happy Days.



# Cynnwys

T. 5 Y Cyllid Sydd ar Gael: Cipolwg

T.6 Cynnig Gofal Plant Cymru

T. 7 Ein Ffioedd

T. 8 Sut alla i ddefnyddio fy Nghynnig Gofal Plant Cymru?

T. 9 Sut mae fy ffioedd yn cael eu cyfrifo?

T. 10 Cymorth arall gan y Llywodraeth

T. 11 Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth

T. 12 Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth: Sut mae hawlio?

# Y Cyllid Sydd ar Gael: Cipolwg

***Mae Talebau Gofal Plant wedi dod i ben ac ni allwch wneud cais am y rhain mwyach. Ond os ydych chi eisoes yn eu defnyddio, gallwch eu defnyddio yn ein meithrinfeydd i dalu am eich ffioedd gofal plant. Sylwch, roedd yr holl wybodaeth isod yn gywir adeg cyhoeddi.**

| | Cynnig Gofal Plant Cymru i Blant 3 a 4 Oed | Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth |
|---|---|---|
| Cymhwysedd | Ar gyfer rhieni sy'n byw yng Nghymru, gyda phlant 3 a 4 oed. Rhaid i incwm gros pob rhiant fod yn £100,000 neu'n llai y flwyddyn. Hefyd, rhaid i rieni fodloni un o'r meini prawf canlynol:<br>• yn gyflogedig ac yn ennill o leiaf, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol<br>• ar Dâl ac Absenoldeb Statudol (Absenoldeb Salwch, Mamolaeth, Tadolaeth, Rhieni, Profedigaeth neu Fabwysiadu)<br>• wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach neu uwch sy'n para o leiaf 10 wythnos<br>• Os oes gennych bartner sy'n byw gyda chi, rhaid i'ch partner hefyd fodloni un o'r meini prawf cyflogaeth neu addysg hyn.<br><br>I fod yn gymwys yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol, rhaid i'ch plentyn fod yn un o'r canlynol:<br>• 3 oed ac yn gymwys i gael addysg gynnar yn unol â pholisi derbyn i ysgolion eich awdurdod lleol (fel arfer, dyma'r tymor ar ôl i'ch plentyn gael ei ben-blwydd yn 3 oed, ond gall fod yn hwyrach). Os ydych yn gallu cael mynediad at addysg gynnar cyn hyn ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y Cynnig tan y tymor ar ôl i'ch plentyn gael ei ben-blwydd yn 3 oed<br>• 4 oed a ddim yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn yn yr awdurdod lleol lle rydych chi'n byw.<br><br>Os yw eich plentyn yn 3 neu'n 4 oed ac yn gymwys i gael addysg amser llawn:<br>• ni fyddwch yn derbyn y Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor<br>• efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau'r ysgol. | Teuluoedd sy'n gweithio sy'n ennill llai na £100,000 y flwyddyn ac o leiaf £167 yr wythnos (sy'n cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol)<br><br>Mae eich plentyn o dan 12 oed (neu o dan 17 oed os yw'n anabl) |
| Eithriadau | Os na fyddwch yn defnyddio'r 30 awr i gyd mewn wythnos, ni allwch eu defnyddio mewn wythnos arall.<br><br>Allwch chi ddim cyfnewid:<br>• oriau addysg gynnar am oriau gofal plant<br>• oriau gofal plant am oriau addysg gynnar<br><br>Os yw eich plentyn yn 3 neu'n 4 oed ac yn gymwys i gael addysg amser llawn:<br>• ni fyddwch yn derbyn y Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor<br>• efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn ystod gwyliau'r ysgol<br><br>Mae'r cyllid gan y llywodraeth ar gyfer yr addysg a'r gofal y mae'r gweithwyr proffesiynol yn y lleoliad yn eu darparu.<br>Nid yw'n cynnwys bwyd, cludiant na gweithgareddau oddi ar y safle sy'n golygu tâl ychwanegol. Bydd darparwyr yn gallu codi tâl arnoch am y rhain. | Does dim modd ei ddefnyddio ar y cyd â Chredyd Cynhwysol, Credydau Treth na Thalebau Gofal Plant |
| Cymorth | Hyd at 30 awr yr wythnos, am 48 wythnos y flwyddyn, yn cynnwys:<br>• o leiaf 10 awr o addysg gynnar<br>• hyd at 20 awr yr wythnos o ofal plant<br><br>Mae gan bob plentyn hawl i addysg gynnar (a elwir yn Addysg Feithrin i blant 3 a 4 oed) o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar, gallai hyn fod mewn:<br>• ysgol leol<br>• cylch chwarae<br>• meithrinfa ddydd<br>• Cylch Meithrin<br><br>Yn ystod y tymor, bydd yr addysg gynnar hon yn rhan o 30 awr y Cynnig.<br><br>Yn ystod gwyliau'r ysgol pan nad oes addysg gynnar, mae'r Cynnig yn darparu 30 awr yr wythnos o ofal plant am hyd at 9 wythnos o'r flwyddyn. Bydd angen i rieni ariannu'r 4 wythnos sy'n weddill eu hunain. | Cewch hyd at £2,000 y plentyn y flwyddyn (uchafswm o £500 y plentyn, bob 3 mis) |

# Cynnig Gofal Plant Cymru i Blant 3 a 4 Oed

Gall rhieni a gwarcheidwaid plant yng Nghymru wneud cais am ofal plant ac addysg gynnar am hyd at 30 awr yr wythnos. Gall gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau (perthynas neu ffrind nad yw'n rhiant i blentyn) wneud cais hefyd.

Mae'r 30 awr yr wythnos yn cynnwys:

- o leiaf 10 awr o addysg gynnar
- hyd at 20 awr o ofal plant




**Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar faint o oriau o addysg gynnar y mae eich awdurdod lleol yn eu cynnig.**
Bydd rheolwr eich meithrinfa yn gallu rhoi gwybod i chi faint o oriau a ariennir y bydd gennych hawl iddyn nhw.
Gallwch ddewis faint o'r 30 awr a ddefnyddiwch am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn. Os na fyddwch yn defnyddio'r 30 awr i gyd mewn wythnos, ni allwch eu defnyddio mewn wythnos arall.

**Allwch chi ddim cyfnewid:**

- oriau addysg gynnar am oriau gofal plant
- oriau gofal plant am oriau addysg gynnar

Cyn gwneud cais, gwiriwch a ydych yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru yma: https://www.llyw.cymru/gwirio-cymhwysedd-cynnig-gofal-plant
I wneud cais am y Cynnig Gofal Plant, ewch i: https://www.llyw.cymru/cael-30-awr-o-ofal-plant-ar-gyfer-plant-3-4-oed/gwneud-cais

Mae angen i un rhiant gwblhau'r cais, hyd yn oed os ydych chi'n gyfrifol am warchodaeth y plentyn ar y cyd.

Os ydych chi'n gwneud cais am fwy nag un plentyn, er enghraifft efeilliaid, ychwanegwch ragor o blant at yr un cais.

# Ein Ffioedd...

Mae'r cyllid gan y llywodraeth ar gyfer yr addysg a'r gofal y mae'r lleoliad yn eu darparu. Nid yw'n talu costau prydau bwyd, cludiant, na gweithgareddau oddi ar y safle sy'n arwain at gostau ychwanegol neu oriau ychwanegol, felly bydd darparwyr yn gallu codi tâl arnoch am y rhain.

Yma yn Happy Days rydyn ni'n codi ffi am gasglu a gollwng y plant hynny rydyn ni'n eu cludo i'r ysgol, ynghyd â thâl am yr holl fyrbrydau a phrydau bwyd sydd ar gael i'ch plentyn yn ystod ei sesiwn.



# Sut alla i ddefnyddio fy Nghynnig Gofal Plant Cymru?

Yn ystod y Tymor, gallwch ddewis defnyddio eich oriau gofal plant yn ein lleoliad ni. Os ydych chi'n gymwys, ac yn defnyddio'r oriau addysg gynnar yn un o'n hysgolion bwydo, rydyn ni'n cynnig gwasanaeth gollwng a chasglu (am dâl).

Yn ystod gwyliau'r ysgol, os ydych chi'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant, bydd gennych hawl i 30 awr yr wythnos o ofal plant am hyd at 9 wythnos am bob blwyddyn academaidd lawn rydych chi'n gymwys.

Byddwch yn cael 3 wythnos o wyliau bob tymor (cyfanswm o 9 wythnos ar gyfer blwyddyn ysgol lawn) i'w defnyddio yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw eich plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn. Chewch chi ddim defnyddio wythnosau gwyliau ymlaen llaw. Ond, mae'n bosib y bydd unrhyw wythnosau o wyliau sydd heb eu defnyddio yn cael eu cario ymlaen a chewch eu defnyddio tra byddwch chi'n dal yn gymwys.

Dyrennir eich hawl i chi ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol pan fyddwch yn ymuno â'r Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol, os ydych yn dal yn gymwys.



**Siaradwch â rheolwr eich meithrinfa i gael rhagor o wybodaeth.**

# Sut mae fy ffioedd yn cael eu cyfrifo?



Mae eich oriau gofal plant yn cael eu dyrannu i'ch patrwm archebu yn gyntaf. Byddwn yn codi tâl am unrhyw oriau sy'n ychwanegol at yr oriau a ariennir ar gyfradd safonol y feithrinfa. Byddwn yn ychwanegu eich costau bwyd, byrbrydau a chludiant bob dydd fel sy'n berthnasol.

**SYLWCH:** Nid ydym yn cynnig cyfraddau fesul awr na fesul sesiwn. Mae ein meithrinfeydd i gyd yn cynnig sesiynau bore, prynhawn a diwrnod llawn safonol fel sy'n cael eu nodi ar eu taflen ffioedd. Efallai y bydd rhai lleoliadau'n cynnig sesiynau cynnar a hwyr, yn dibynnu ar eu lleoliad – codir tâl am y rhain ar wahân. Pan fyddwn yn sôn am oriau ychwanegol, rydyn ni'n golygu'r oriau ychwanegol yn y sesiwn nad yw Cynnig Gofal Plant Cymru yn eu cynnwys, ynghyd ag unrhyw sesiynau safonol ychwanegol sydd eu hangen.

Happy Days
Where Children Shine

# Cymorth arall gan y Llywodraeth



# Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth...

## Beth yw Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth?

Rhaglen gan y llywodraeth yw Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth i helpu'ch teulu gyda chostau gofal plant, a bydd yn eich helpu i gael gwaith neu i gynyddu eich oriau yn y gwaith, os ydych chi awydd.

Gallai fod gennych hawl i gael cymorth o hyd at £2,000 y plentyn, y flwyddyn (hyd at £500 bob tri mis) tuag at eich costau gofal plant.

Os ydych yn cael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth, byddwch yn sefydlu cyfrif gofal plant ar-lein ar gyfer eich Plentyn. Am bob £8 rydych chi'n ei thalu i'r cyfrif hwn, bydd y llywodraeth yn talu £2 i'w defnyddio i dalu eich darparwr.

Gallwch gael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ar yr un pryd â 15 neu 30 awr o ofal plant am ddim os ydych chi'n gymwys ar gyfer y ddau.

Chewch chi ddim Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth os ydych chi'n hawlio Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Credyd Cynhwysol neu dalebau gofal plant ar yr un pryd.

## Ydw i'n gymwys?

Gallwch wneud cais am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth os yw'r canlynol yn berthnasol i chi:


- Rydych chi a'ch partner (neu'r unig riant mewn teulu rhiant sengl) yn gweithio, gyda phob rhiant yn ennill, ar gyfartaledd, isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a dim mwy na £100,000 yr un bob blwyddyn
- Mae eich plentyn o dan 12 oed (neu o dan 17 oed os yw'n anabl)
- Mae'r plentyn rydych yn gwneud cais ar ei gyfer fel arfer yn byw gyda chi
- Rydych chi'n gweithio yn y DU

Os ydych chi'n hunangyflogedig ac wedi dechrau eich busnes lai na 12 mis yn ôl, gallwch ennill llai a dal bod yn gymwys i gael Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth.

Bydd y cynllun ar gael i rieni sydd ar absenoldeb salwch gyda thâl ac absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu statudol gyda thâl a di-dâl.

Os nad ydych chi'n siŵr a yw'n iawn i chi, ewch i: **www.childcarechoices.gov.uk**

Mae pa gynllun sy'n well i chi yn dibynnu ar eich sefyllfa. Defnyddiwch y gyfrifiannell gofal plant i weld pa fath o gymorth sydd orau i chi.



# Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth: Sut mae hawlio?

**Cam 1: Ydych chi'n gymwys?**
Ewch i https://www.gov.uk/gofal-plant-syn-rhydd-o-dreth i gael rhagor o wybodaeth.
**Sylwch**: Ni allwch ddefnyddio Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth ynghyd â'r canlynol: Credydau Treth, Credyd Cynhwysol, Talebau Gofal Plant.

**Cam 2: Gwneud cais am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth**
Ewch i https://www.gov.uk/gwneud-cais-am-ofal-plant-syn-rhydd-o-dreth
Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn cael cyfrif gofal plant ar-lein.



**Cam 3: Dewis Happy Days Nurseries & Pre-School fel eich darparwr gofal plant**
Mae popeth wedi'i drefn i ni allu derbyn taliadau Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth.

**Cam 4: Talu arian i'ch cyfrif gofal plant**
Gallwch roi arian yn eich cyfrif gofal plant gan ddefnyddio cerdyn debyd, ond mae'n gyflymach drwy archeb sefydlog neu drosglwyddiad banc. Am bob £8 y byddwch yn ei thalu i mewn, bydd y llywodraeth yn ychwanegu £2 yn awtomatig, hyd at £2,000 y plentyn y flwyddyn (neu £4,000 ar gyfer plant anabl.) Gallwch ddefnyddio'r arian hwn pan fydd yn dangos ei fod 'ar gael'.

**Sylwch:** Gall unrhyw un wneud taliadau i'ch cyfrif ar eich rhan ac, os bydd eich amgylchiadau'n newid neu os nad ydych chi'n dymuno talu i mewn i'r cyfrif mwyach, gallwch dynnu'r arian rydych chi wedi'i gronni yn ôl. Os byddwch yn gwneud hynny, bydd y llywodraeth yn tynnu ei chyfraniad cyfatebol yn ôl. **Cofiwch!** Rhaid i chi fewngofnodi bob 3 mis a chadarnhau bod eich manylion yn gyfredol.

**Cam 5: Talu eich ffioedd**
Defnyddiwch yr arian yn eich cyfrif gofal plant, gan gynnwys swm atodol y llywodraeth, i dalu eich ffioedd. Gwnewch yn siŵr bod y ffioedd yn cael eu talu ar y cyntaf o bob mis, neu cyn hynny. Hefyd, oherwydd bod y ffioedd yn cael eu codi ar sail wirioneddol, gwnewch yn siŵr eich bod yn talu'r swm cywir bob mis.

**Sylwch:** Byddwch yn cael cyfeirnod ar gyfer pob plentyn. Rhaid i chi rannu'r cyfeirnod â ni (drwy anfon e-bost at Reolwr eich Meithrinfa) er mwyn i ni allu dyrannu'r taliad yn erbyn eich ffioedd gofal plant.

**Cam 6: Ail-gadarnhau**
I barhau i dderbyn swm atodol y llywodraeth, bydd angen i chi gadarnhau bod eich manylion yn gyfredol bob 3 mis. Ond peidiwch â phoeni! Byddwch yn derbyn neges destun a/neu e-bost 4 wythnos cyn y dyddiad ail-gadarnhau. Bydd hyn yn eich atgoffa i fewngofnodi i'ch cyfrif gofal plant.